

Adroddiad Blynyddol 2010–11

**Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru**

Tachwedd 2011

Y Bwrdd Taliadau

Y Gwir Anrhydeddus George Reid (Cadeirydd)

Sandy Blair CBE

Mary Carter

Stuart Castledine

Yr Athro Monojit Chatterji

Mae bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd ar gael yn Atodiad A.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Carys Eyton Evans, Clerc

Helen Finlayson, Dirprwy Glerc

Annette Stafford, Cymorth Tîm

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

www.cynulliadcymru.org

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8598

Ffacs: 029 2089 8117

E-bost: Remuneration@cymru.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Pennod 1: Y Bwrdd Taliadau	6
Sefydlu a Phenodi; Swyddogaethau ac Amcanion; Gofynion Statudol	
Pennod 2: Cyfnod Un: Addas i'r Diben	8
<i>Addas i'r Diben</i> ; Egwyddorion; Methodoleg ac Ymgynghori; Costau ein Gwaith yn 2010-11	
Pennod 3: Cyfnod Dau (Taliadau Deiliaid Swyddi) a'r Flaenraglen Waith	12
Taliadau Deiliaid Swyddi; Rhaglen Waith 2011-12; Rhaglen Waith 2012-2016	
Atodiad A: Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau	14
Atodiad B: Dadansoddiad o Gost y Bwrdd	16
Atodiad C: Ymgynghori	18

Cyflwyniad

Mandad Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu ar gyflogau a lwfansau Aelodau a'u staff.

Yn dilyn ein penodiad gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Medi 2010, rydym wedi cyfarfod mewn sesiwn ffurfiol ar naw achlysur. Yn ychwanegol at hynny, cafodd oddeutu dwy ran o dair o'n gwaith ei wneud drwy ymchwil a dadansoddi gan aelodau'r Bwrdd, cyfweiliadau gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff ac ymgynghoriadau ysgrifenedig.

Ein nod oedd rhoi system dryloyw a chadarn ar waith i roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Credwn fod ein Penderfyniad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 ac a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2011, yn deg, yn glir ac yn gynaliadwy; ei fod yn cynrychioli gwerth am arian; a'i fod â chysylltiad clir â chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad.

Wrth arfer ein swyddogaethau mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn sicrhau "bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder". Rydym yn cydnabod bod y gofyniad hwn yn berthnasol i'r system o roi cymorth ariannol yr ydym yn ei rhoi ar waith, ac i'r ffordd yr ydym ni ein hunain yn gweithredu. Hyderwn fod ein hadroddiad blynyddol cyntaf yn dangos ein hymrwymiad i'r amcan hwnnw.

Yn arbennig, rydym wedi defnyddio arbenigedd aelodau'r Bwrdd sydd â phrofiad proffesiynol arbennig o faterion yn ymwneud â thaliadau, ac wedi cael cymorth gweinyddol, cyfreithiol ac ymchwil gan staff Comisiwn y Cynulliad. Mae hyn wedi cadw'r costau i lawr a chredwn ei fod wedi sicrhau gwerth am arian cyhoeddus.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ein cynorthwyo gyda'n gwaith, ac yn arbennig i'r rheini yr ydym yn eu rhestru yn Atodiad C.



Y Gwir Anrhydeddus George Reid
Cadeirydd y Bwrdd Taliadau
Tachwedd 2011

Y Bwrdd Taliadau

Mae'r bennod hon yn nodi ein swyddogaethau a'n cylch gwaith.

Sefydlu a Phenodi

1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.
2. Penodwyd y Bwrdd trwy weithdrefn penodiadau cyhoeddus dryloyw yn ystod haf 2010. Gellir gweld bywgraffiadau holl aelodau'r Bwrdd yn Atodiad A. Cafodd aelodau'r Bwrdd Taliadau eu penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni allant sefyll am fwy na dau dymor.
3. Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau'n ffurfiol ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

Swyddogaethau ac Amcanion

4. Ein swyddogaethau, fel y nodir yn adran 3 o'r Mesur, yw pennu lefel y cyflogau a system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i gyflawni'u swyddogaethau.
5. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i ni geisio'u cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:
 - darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, a nad yw, ar sail ariannol yn atal personau rhag sefyll mewn etholiad ar gyfer y Cynulliad am resymau ariannol;
 - darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a
 - sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

Gofynion Statudol

6. Wrth gyflawni'n swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ein gorfodi i adolygu gweithrediad ein penderfyniadau a'u heffeithiolrwydd, gan roi ystyriaeth arbennig i'r profiad a gawn o weithredu'n Penderfyniad, unrhyw newidiadau yn swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill y tybiwn eu bod yn berthnasol.

7. Er ein bod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nid ydym yn dod o dan ei gyfarwyddyd na'i reolaeth na Chomisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ein gorfodi, wrth arfer ein swyddogaethau, i ymgynghori â'r personau y mae'n debyg yr effeithir arnynt gan ein penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y tybiwn ei bod yn briodol i ni ymgynghori â hwy.
8. Mae adran 2 o'r Mesur yn rhoi caniatâd i ni gyfarfod yn breifat os tybiwn fod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu mewn ffordd agored a thryloyw a chyhoeddi gwybodaeth o'r fath ar wefan y Cynulliad fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o'n gweithgareddau. Yn ychwanegol at hynny, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod adroddiad blynyddol o'n gweithgarwch gerbron y Cynulliad, gan gynnwys ein defnydd o adnoddau yn ystod pob blwyddyn ariannol.
9. Roedd adran 15 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried unrhyw argymhellion perthnasol o'r adroddiad *Yn Gywir i Gymru* o fis Gorffennaf 2009, y tro cyntaf i ni ystyried materion yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar gyflogau neu gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

Cyfnod Un: Addas i'r Diben

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhan gyntaf ein gwaith, o fis Hydref 2010 hyd at fis Mawrth 2011.

Addas i'r Diben

10. Gwnaethom ran gyntaf ein gwaith — sef sefydlu'r system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad — rhwng mis Hydref 2010 a mis Mawrth 2011.
11. Cyhoeddwyd ein Penderfyniad cyntaf ar Gyflog a Lwfansau Aelodau ym mis Mawrth 2011. Roedd adroddiad, *Addas i'r Diben*, yn cyd-fynd â'r Penderfyniad. Roedd yr adroddiad yn egluro ein hegwyddorion, ein methodoleg, yr ymgynghori a'r gwaith ymchwil a wnaed gennym, a'n penderfyniadau ynghylch y system briodol o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad. Roedd hwn yn cynnwys penderfyniadau mewn perthynas â:
 - chyflogau Aelodau'r Cynulliad;
 - cyflogau sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi ychwanegol¹;
 - cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys costau preswyl, swyddfa a theithio;
 - staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau a recriwtio; a
 - chymorth i grwpiau plaid.

Egwyddorion

12. Cafodd ein gwaith hyd yma ei ategu gan gyfres o egwyddorion sy'n cael ei diffinio'n glir:
 - dylai cymorth ariannol a thâl i Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
 - mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru; ac
 - mae'n rhaid i'r system o roi cymorth ariannol fod yn gynaliadwy ac mae'n rhaid iddi gynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

¹ Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Cwnsler Cyffredinol, Llywyddion, Comisiynwyr, rheolwyr busnes a chwip, , arweinwyr pleidiau a chadeiryddion pwyllgorau

13. Yn ychwanegol at hyn, penderfynwyd fod yn rhaid i unrhyw system o roi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy.

Methodoleg

14. Mae'r penderfyniadau a nodir yn ein Penderfyniad yn deillio o adolygiad sy'n 'addas i'r diben' ac sy'n dryloyw a chyfranogol o'r system o roi cymorth ariannol a thâl. Roeddent yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan Aelodau'r Cynulliad, eu staff, ac unigolion a sefydliadau perthnasol eraill.
15. Roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ein galluogi i sefydlu golwg glir o ddibenion strategol y Cynulliad a deall y ffordd y mae Aelodau'n cyflawni'r dibenion hynny. Roeddem wedyn yn gallu datblygu system o daliadau a oedd yn targedu adnoddau i gefnogi'r dibenion hynny, gan wneud y gorau o allu strategol y Cynulliad.
16. Yn unol ag adran 15 o'r Mesur, rhoddwyd sylw priodol i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, *Yn Gywir i Gymru*. Lle penderfynwyd ymadael ag argymhellion y Panel, eglurwyd yn glir ein rhesymau dros wneud hynny. Rhoddwyd 72 o'r argymhellion ar waith yn llawn ac 11 yn rhannol. Ni chytunwyd â 12 o'r argymhellion. Roedd y 13 a oedd yn weddill y tu allan i'n cylch gwaith.

Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

17. Yn unol â'n dyletswyddau statudol, ymgynghorwyd ag Aelodau'r Cynulliad drwy gydol ein gwaith. Gwahoddwyd hwy i ymateb i arolwg ac i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar unrhyw agwedd ar gymorth ariannol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gydag Aelodau, eu staff, grwpiau plaid ac aelodau o'r Panel Adolygu Annibynnol. Cynhaliwyd cynhadledd pryd y gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r pleidiau gwleidyddol, staff cymorth yr Aelodau, academyddion a chymdeithas sifil Cymru.
18. Gwnaeth Aelodau o'r Bwrdd a oedd ag arbenigedd proffesiynol penodol mewn materion yn ymwneud â thâl, waith ymchwil manwl er mwyn llywio ein canfyddiadau, yn enwedig ar lefel y cyflog sylfaenol sy'n daladwy i Aelodau'r Cynulliad a'u staff mewn perthynas â'u cyfrifoldebau. Ymgynghorodd y Cadeirydd â'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion, yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol a chynrychiolwyr o Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.
19. Hefyd defnyddiwyd gwaith a wnaed yn flaenorol gan Gomisiwn y Cynulliad, y ddau banel annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a chyrrff taliadau eraill.

Cost ein Gwaith yn 2010–11

20. Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith, cynhaliwyd chwe chyfarfod ffurfiol pryd y cafwyd tystiolaeth, datblygwyd a thrafodwyd ein cynigion, a daethom i'r penderfyniadau sy'n cael eu cynnwys yn ein Penderfyniad a'n hadroddiad cyntaf. Bu'r Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd hefyd yn y Cynulliad lawer gwaith ar gyfer ymgynghoriadau, cyfarfodydd anffurfiol gydag Aelodau,

arweinyddion pleidiau a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, sesiynau casglu tystiolaeth, cyfarfodydd gyda swyddogion a'n cynhadledd.

21. Yn ychwanegol at hyn, gwnaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd gyfanswm o 33.5 diwrnod o waith paratoi, gan gynnwys yr amser a dreuliodd yn drafftio *Addas i'r Diben*, a 34.5 diwrnod o ymchwil arbenigol gan aelodau'r Bwrdd oedd â phrofiad proffesiynol o faterion yn ymwneud â thaliadau.
22. Mae'r costau uniongyrchol a ysgwyddwyd yn ystod y rhan hon o'n gwaith wedi'u nodi yn Ffigwr 1 isod. Mae dadansoddiad mwy manwl ar gael yn Atodiad B.

Ffigwr 1: Cost uniongyrchol ein Penderfyniad (Mawrth 2011)

Eitem	Cost
Cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol	£7,566
Gwaith paratoi ac ymchwil	£17,586
Teithio a chynhaliaeth	£6,688
Teithio a chynhaliaeth tystion	£102
Cyfanswm²	£31,942

23. Drwy gydol ein gwaith, ac yn unol ag adran 9 o'r Mesur, rydym wedi cael cymorth clerico ac ymchwil, cyngor cyfreithiol ac fel arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Yr ydym yn ddiolchgar iawn o'r cymorth hwn a ddarparwyd fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac felly ni achosodd unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.

² Mae'r ffigwr hwn yn wahanol i'r un a gofnodwyd ym mharagraff 401 o *Addas i'r Diben*. Y rheswm yw fod *Addas i'r Diben* wedi cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a'i fod, felly, yn seiliedig ar amcangyfrifon o gyfanswm yr amser paratoi ac ymchwil fyddai ei angen i lunio'r adroddiad. Nid oedd y ffigwr hwn, chwaith, yn ystyried gwaith cyfathrebu a wnaeth y Cadeirydd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

Cyfnod Dau (Taliadau Deiliaid Swyddi) a'r Flaenraglen Waith

Mae'r bennod hon yn amlinellu ein gwaith ar daliadau deiliaid swyddi, a'n rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Taliadau Deiliaid Swyddi

24. Yn ystod rhan gyntaf ein gwaith yn 2010-11, nid oedd gennym ddigon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau terfynol mewn perthynas â thaliadau priodol i arweinyddion y gwrthbleidiau, rheolwyr busnes a chwipiaid, cadeiryddion pwyllgorau, a Chomisiynwyr y Cynulliad. Fe wnaethom, felly, ohirio ein penderfyniadau yn y meysydd hyn tan ar ôl etholiad mis Mai 2011. Yn ogystal â rhoi'r cyfle i ni wneud rhagor o waith ymchwil a chasglu mwy o dystiolaeth am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r amrywiol swyddi, roedd hefyd yn ein galluogi i ystyried cyfansoddiad gwleidyddol neilltuol y Pedwerydd Cynulliad, canlyniad refferendwm mis Mawrth 2011 ar ragor o bwerau deddfu i'r Cynulliad, a chyfrifoldebau tebygol cadeiryddion pwyllgorau o ganlyniad i strwythur pwyllgor mwy llyfn.
25. Cyhoeddwyd Penderfyniad wedi'i ddiweddarau ac adroddiad i gyd fynd â'r Penderfyniad, sef *Taliadau Deiliaid Swyddi*, ym mis Gorffennaf 2011. Byddwn yn adrodd ar y costau a ysgwyddwyd trwy wneud y gwaith hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol 2011-12.

Rhaglen Waith 2011-12

26. Rhan nesaf ein gwaith fydd cynnal adolygiad o fuddion pensiwn i Aelodau, deiliaid swyddi a staff. Cytunwyd ym mis Mawrth 2011 i ohirio ystyried y mater hwn nes ein bod wedi cael gwerthusiad actwaraidd 2011 o Gynllun Pensiwn yr Aelodau, a'n bod wedi cael amser i ystyried yn fanwl oblygiadau adroddiad yr Arglwydd Hutton ym mis Mawrth 2011 ar bensiynau'r sector cyhoeddus a'r ddadl gyhoeddus am ei ganlyniadau. Mae'r gwaith ymchwil cychwynnol yn y maes hwn wedi dechrau, ond oherwydd cymhlethdod y maes gwaith, rydym yn rhagweld y bydd yn mynd rhagddo am hyd y Pedwerydd Cynulliad.
27. Yn ystod 2011-12 bwriadwn hefyd wneud gwaith gwerthuso cychwynnol ar y broses o roi'n Penderfyniad cyntaf ar waith. Mae'r gwerthusiad hwn yn debygol o ganolbwyntio ar y lwfansau sydd ar gael i gefnogi Aelodau yn eu gwaith a'r trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi staff cymorth.

Rhaglen Waith 2012-16

28. Yn *Addas i'r Diben* disgrifiwyd y Pedwerydd Cynulliad fel un trosiannol - cyfnod pan fydd y Cynulliad, yn dilyn refferendwm mis Mawrth 2011, yn datblygu i fod yn gorff deddfu llawn.
29. Yn ystod rhan nesaf ein gwaith, byddwn yn gwerthuso'r ffordd y cafodd elfennau penodol o'n Penderfyniad eu rhoi ar waith o ran cefnogi dibenion strategol y Cynulliad, a'u heffeithiolrwydd. Byddwn hefyd yn adolygu'r trefniadau talu staff cymorth yr Aelodau yn 2013 pan ddaw'r broses o rewi graddfeydd cyflog a amlinellwyd yn *Addas i'r Diben* i ben.
30. Mae'r system o roi cymorth ariannol a nodwyd yn ein Penderfyniad am gyfnod o bedair blynedd o gychwyn y Pedwerydd Cynulliad. Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, mae'r Fixed-Term Parliaments Bill 2010-11 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2011 wedi arwain at ymestyn tymor y Pedwerydd Cynulliad i bum mlynedd.³ Yn 2013-14 byddwn, felly, yn adolygu'r penderfyniadau a wnaethom ynghylch lefelau cyflog Aelodau er mwyn asesu a yw'r system o roi cymorth ariannol yn briodol ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad.
31. Cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2016 byddwn yn penderfynu ar gyfanswm y pecyn taliadau a'r system o roi cymorth ariannol sy'n briodol ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad. Mae hyn yn debygol o olygu asesu pwysau'r swydd a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion a deiliaid swyddi eraill yn wyneb datblygiad y Pedwerydd Cynulliad.

³ T16, *Taliadau Deiliaid Swyddi*

Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae'r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni a nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau; a
- sicrhau priodolrwydd, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

Wrth ymgymryd â'i gylch gwaith, mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu'n agored ac yn dryloyw a, lle teimla'r Bwrdd fod hynny'n briodol, ymgynghori â'r personau y mae'n debyg yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau.

Penodwyd y Bwrdd ar sail proses recriwtio agored a theg ac mae'n cynnwys Cadeirydd a 4 aelod Bwrdd.



Y Gwir Anrhydeddus George Reid

(Cadeirydd)

Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Aelod o'r Cyfrin Gyngor, cyn AS, cyn-Aelod o Senedd yr Alban, Llywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Corfforaethol. Arglwydd Raglaw Swydd Clackmannan. Bu'n gweithio am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Ryngwladol/Cilgant Coch. Mae ei benodiadau presennol yn cynnwys: Comisiynydd Etholiadol y DU, Cynghorydd Annibynnol ar God Gweinidogol yr Alban, ac athro gwadd ym Mhrifysgolion Glasgow a Stirling. Yn ddiweddar, bu'n arwain adolygiadau strategol ar lywodraethu yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban.



Sandy Blair CBE

Cyn gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLILC (ymddeolodd yn 2004). Bu'n brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i CLILC, ac yn Llywydd SOLACE yn 1999-2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr cyrff cyhoeddus megis cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a swyddi o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.



Mary Carter

Ymdeolodd fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflogau milwrol, lwfansau a thaliadau digolledu, yn ogystal ag ymgynghorydd rhan amser i KPMG. Mae'n gyfreithiwr ac wedi arbenigo ers dros 20 mlynedd ar gynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ar daliadau a chymhellion i gyfarwyddwyr/uwch reolwyr a materion trethiant a llywodraethu cysylltiedig.



Stuart Castledine

Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi rheoli ariannol a chyffredinol gydag Allied Dunbar, Chartered Trust a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae wedi ymgymryd â nifer o aseiniadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan helpu i sefydlu cynghreiriau a mentrau ar y cyd, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr sy'n gwyrddroi nifer o sefydliadau gwasanaethau ariannol sy'n methu. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cyllid Bluestone Resorts Ltd ac yn gyfarwyddwr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.



Yr Athro Monojit Chatterji

Ac yntau'n academydd sydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn meysydd megis y ffactorau sy'n pennu cyflogau'r sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae'n Athro Bonar mewn Economeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Dundee ac yn Gyd-gymrawd a Chyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sydney Sussex, Caergrawnt. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achosion Brys y DU (y corff negodi tâl). Cyn hynny bu'n aelod o gorff Adolygu Athrawon Ysgol sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyflogau ac amodau, a threfniadau llywodraethu hefyd ar gyfer athrawon ysgol a phenaethiaid ysgol yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn gyn aelod o'r Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, yn ystyried materion trawsbleidiol yn ymwneud â thâl yn y sector cyhoeddus

Dadansoddiad o Gost y Bwrdd

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2010-11.

	Y Gwir Anrhydeddus George Reid (Cadeirydd)	Sandy Blair	Mary Carter	Stuart Castledine	Monojit Chatterji	Cyfanswm
Cyfradd ddyddiol	£243	£185	£185	£185	£185	-
Cyfarfodydd Bwrdd Ffurfiol	£2,503 ⁴	£1,363	£1,295	£1,110	£1,295	£7,566
Gwaith paratoi ac ymchwil	£4,131 ⁵	£1,542	£4,285	£1,986	£5,643	£17,586
Teithio a chynhaliaeth	£3,271	£154	£677	£46	£2,098	£6,688⁶
Teithio a chynhaliaeth Tystion	-	-	-	-	-	£102
Cyfanswm	£9,904	£3,059	£6,257	£3,141	£9,036	£31,942

⁴ Yn ychwanegol at y cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol, bu'r Cadeirydd yn y Cynulliad ar saith achlysur ar gyfer cyfarfodydd gydag arweinyddion Pleidiau, Comisiwn y Cynulliad, sesiynau galw heibio gydag Aelodau a'u staff, a thrafodaethau gyda staff y Cynulliad.

⁵ Gweler droednodyn 4 uchod.

⁶ Mae'r cyfanswm yn cynnwys bwyd a diod a ddarparwyd yng nghynhadledd y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2010, ac yn ystod cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol.

Ymgynghori

Trwy gydol ein gwaith ac yn unol ag Adran 2 o Fesur (Taliadau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010, rydym wedi ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r canlynol am gymryd amser i ddarparu tystiolaeth er mwyn cefnogi'n gwaith.

Aelodau Cynulliad:

Leighton Andrews AC
 Mohammed Asghar AC
 Peter Black AC
 Angela Burns AC
 Rosemary Butler AC
 Christine Chapman AC
 Jeff Cuthbert AC
 Alun Davies AC
 Andrew RT Davies AC
 Byron Davies AC
 Jocelyn Davies AC
 Paul Davies AC
 Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd
 Dafydd Elis-Thomas AC PC
 William Graham AC
 Janice Gregory AC
 John Griffiths AC
 Lesley Griffiths AC
 Mark Isherwood AC
 Bethan Jenkins AC
 Ann Jones AC
 Alun Ffred Jones AC
 Y Gwir Anrhydeddus Carwyn
 Jones AC PC
 Elin Jones AC
 David Melding AC
 Sandy Mewies AC
 Darren Millar AC
 Nick Ramsay AC
 Rhodri Glyn Thomas AC
 Kirsty Williams AC
 Leanne Wood AC
 Ieuan Wyn Jones AC

Cyn Aelodau Cynulliad:

Lorraine Barrett
 Mick Bates
 Nick Bourne
 Eleanor Burnham
 Nerys Evans
 Chris Franks
 Veronica German
 Brian Gibbons
 Gareth Jones
 Helen Mary Jones
 Dai Lloyd
 Val Lloyd

Jonathan Morgan

Y Gwir Anrhydeddus Rhodri
 Morgan
 Y Farwnes Randerson
 Gwenda Thomas

Ymgynghoreion Allanol:

Gerard Elias QC, *Comisiynydd
 Safonau Cynulliad Cenedlaethol
 Cymru*
 Gwion Evans, *Swyddfa
 Comisiynydd Plant Cymru*
 Ruth Fox, *Cymdeithas Hansard*
 Syr Malcolm Jack KCB, *Tŷ'r
 Cyffredin*
 Andy Klom, *Y Comisiwn
 Ewropeaidd*
 Keith Masson, *Ysgrifenyddaieth
 SSRB*
 Yr Athro Laura McAllister
 Jackie Nickson, *aelod o'r Panel
 Adolygu Annibynnol*

Trevor Reaney, *Cynulliad*

Gogledd Iwerddon

Dr Diana Stirbu

Martyn Taylor, *IPSA*

Peter Tyndall, *Ombwdsmon*

Gwasanaethau Cyhoeddus

Cymru

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd

Wigley PC, *aelod o'r Panel*

Adolygu Annibynnol

Huw Williams, *Senedd yr Alban*

Richard Wyn Jones, *Canolfan*

Llywodraethu Cymru

Staff Cymorth yr Aelodau:

Chris Binding, *Llafur Cymru a*

chynrychiolydd y GMB

Anthony Cooper, *Llafur Cymru*

David Costa, *Llafur Cymru a*

chynrychiolydd Unite

Kelly Davies, *Plaid Cymru a*

chynrychiolydd PCS

Joanne Foster, *Democratiaid*

Rhyddfrydol Cymru

Mark Major, *Ceidwadwyr Cymru*

Jackie Radford, *Democratiaid*

Rhyddfrydol Cymru

Karen Roberts, *Democratiaid*

Rhyddfrydol Cymru

Carole Willis, *Plaid Cymru*